

“Digon i ti fy ngras i”

I gloi'r gyfres fer hon o ysgrifau cawn ein harwain gan y **Parch Marcus Wyn Robison**, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol i drafod calon y thema sydd wedi ei osod ganddo i'r Gymanfa yn ystod tymor ei lywyddiaeth.

Wrth ystyried fy thema am y flwyddyn mae geiriau cadarnhaol yr Arglwydd i Paul yn dechrau gyda'r cymal – “Digon i ti...”.

Efallai mai da byddai ystyried ein dealltwriaeth o ddigonedd.

Y “Digon” Negyddol

Fel llawer i ymadrodd mae'r gair “digon” yn cael ei ddefnyddio yn y modd negyddol – “Dwi di gael digon o hyn” h.y. mae gormodedd wedi arwain at ddiflastod.

Yn y sefyllfa sydd yn wynebu rhai o'n heglwysi efallai fod rhai yn teimlo eu bod wedi cael “digon” o'r ffordd mae pethau, ond os felly, a oes yna ddyhead i newid?

Mae rhai yn hoffi cwyno ond eto yn methu symud allan o'u negyddoldeb – ffrindiau Job go iawn. Dwi'n ofni mae rhai felly sydd yn sugno egni cymaint o'n hachosion ac yn eu dal yn ôl rhag arbrofi ac anturio.

Yr ochr arall i'r wedd negyddol yw'r rhai sydd yn teimlo nad yw pethau byth yn ddigon da! Rwyf wedi tynnu coes ers tro, cyfaill i mi oherwydd “Bodlondeb” ydi enw'r tŷ, ond mae ei wraig wastad angen ail-wneud neu wella rhywbeth (felly byddai “Anfodlondeb” yn gywirach!)

Mae cyd-destun adnod y thema yn tynnu sylw at anfodlonrwydd yr Apostol Paul yn cwyno na allai gael gwared â'r boen sydd yn codi o'r “ddraenen yn ei ystlys”, ac yn waeth na dannodd mae poen felly yn ein cadw rhag bod yn gyfforddus. Fel llawer sydd yn byw gyda phoenau corfforol yn barhaus yr her ydi canolbwyntio yn feddyliol ar rywbeth sydd yn lleihau'r dioddefaint. Sut mae symud ymlaen o'r diflastod negyddol ydi'r gamp?

Y “Digon” Rhybuddiol

Yn gymharol ddiweddar fe 'roedd gan yr heddlu hysbyseb yn dweud “Dyna Ddigon” h.y. rydych mewn peryg o wneud niwed i chi'ch hun ag eraill.

Cyflawnder gras



“Oddi mewn i bob un ohonom canfyddwn ddelw Duw, er iddo gael ei andwyo a'i anharddu i wahanol raddau gan bechod. Y mae Duw yn medru adfer y ddelw hon trwy ras wrth i ni gael ei chydffurfio â Christ.” Alistair Mcgrath

“Nid wyf yr hyn ddylwn fod. Nid wyf yr hyn a ddymunaf fod. Nid wyf yr hyn rwy'n gobeithio y caf fod. Ond er hyn, nid wyf yr hyn a arferwn fod. A thrwy ras Duw yr wyf yr hyn yr ydwyf heddiw.”
John Newton

Yn ein byd digidol a materol mae llawer yn aros yn arwynebol eu bryd a ddim hyd yn oed yn dechrau cydnabod y materion sydd yn eu poeni. Maent mewn peryg drwy beidio wynebu'r pethau sydd yn dwys bigo'r meddwl a'r ysbryd – y pethau nad oes yna feddyginiaeth iddynt. Dyna sydd yn creu'r “gwacter ystyr”, a'r anfodlonrwydd sydd yn peri i gymaint droi at gyffuriau neu ryw obsesiwn arall i osgoi wynebu'r boen a'r ofn ysbrydol.

Rhan o'n gwaith wrth ymestyn at eraill yn ein cymuned yw eu gwahodd i gydnabod yr agweddau sydd yn gwneud niwed i bawb.

Y “Digon” Cyflawn

Diolchaf pan oeddwn i'n ifanc, ac yn wynebu cyfnod anhapus, fod gennyf gyfle i glywed am gariad Duw, a dysgu am ddoethineb ysbrydol y Pêr Ganiedydd wrth iddo sôn am yr hen wirioneddau. Rwy'n ymwybodol iawn fod yr ieithwedd wedi newid wrth geisio cyfathrebu â'r ifanc heddiw, ond mae deall calon y neges yr un mor bwysig os ydym am ddarganfod sut i fod yn wirioneddol hapus.

Cofiaf am yr emyn sydd yn sôn am wella'r agweddau negyddol – “Iachâd oddi wrth euogrydd, iachâd o ofnau'r bedd,” gan symud ymlaen i'r positif “a chariad wedi wreiddio ar sail tragwyddol heddi!” Mae ymdeimlo â nerth y gwirioneddau hyn yn tawelu unrhyw ansicrwydd ac yn bodloni enaid a'n her ni fel unigolion ac fel eglwys yw gweddio am arweiniad yr Ysbryd i gario profiad o nerth y neges i genhedlaeth newydd.

Gweddïaf y daw'r gallu i ni brofi ynom y bodlonrwydd sydd yn dod trwy ffydd ag ymddiriedaeth yn ein Ceidwad byw, gan ymdeimlo â'r un profiad ag arweiniodd Williams, Pantycelyn i ddweud “Iesu, Iesu rwyf ti'n ddigon...”

Dymunaf i ni un ag oll wybod mai “Digon i ti fy ngras i!”